Cyngor Tref Llandeilo Fawr

Llandeilo Fawr Town Council

Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ddydd Mercher 3ydd Medi, 2008 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.30 pm

Presennol: Y Maer Cyng Edward Thomas, Cyng Colin Jenkins, Cyng Dawn Wallace, Cyng Christopher Parish, Cyng Hugh Towns, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Julia Jones,
Mr Roger Phillips, Clerc y Dref,
Mr Christopher Plummer, Swyddog Cyllid,
Mr Des Davies, Swyddog Technegol.

Ymddiheuriadau : Cyng Ros Bellamy, Y Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater

Cof 128/ Medi / 08 Anfonebau i'w talu.

WCVA (Gweinyddiaeth Gorffennaf 2008)	£	35.54
WCVA (Gweinyddiaeth Gorffennaf 2008)	£	167.40
CSC – Goleuadau Llwybrau Troed	£	292.38
Orchardweb	£	35.00
Mr Flag (treialon cŵn defaid/baneri cenedlaethol)	£	373.16
Menter Bro Dinefwr (cyfieithiadau)	£	699.56
Clerc y Dref (costau deunyddiau swyddfa)	£	68.18
C & M Bacon (cywiro cloc)	£	300.00
Swyddog Technegol (cetris inc)	£	40.89
Swyddog Technegol (byrddau pren)	£	18.47
Nice Price News	£	6.98
D. Cledwyn Moses (Blaen Neuadd y Sir)	£	5,567.15
Costau postio'r Maer	£	16.48
Band Porthtywyn (Canmlwyddiant Parc Penlan)	£	400.00

Sieciau a awdurdodwyd gan y Maer yn ystod Awst fel mater o frys

Fireworks International	£	1,399.99
Kimbolton Fireworks International	£	1,352.35
Pains Fireworks	£	1,398.27

Penderfynwyd talu'r rhain. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Hugh Towns. Roedd pawb o blaid.

Cof 129 / Medi/ 08 Incwm a Dderbyniwyd Awst 2008

Ni dderbyniwyd unrhyw incwm

Cof 130 / Medi / 08 Balansau'r Cyfrifon

Cofnodwyd a **Derbyniwyd** yr adroddiad canlynol ar gyllid y Cyngor:

LTC CYFRIF CYFREDOL (30. 8.08)	£ 145.75
LTC CYFRIF CYNILO (31.8.08)	£ 7,841.29
BOND LLOG UCHEL (llog i'w ychwanegu)	£ 50,000.00
LTC CYFRIF TREULIAU'R MAER (20.8.08)	£ 2,275.72

Cof 131 / Medi / 08 Materion Ariannol Eraill

1. Gan fod y Bond Llog Uchel i aeddfedu ar Fedi'r 12fed, 2008 cytunwyd i'w ail-fuddsoddi am 3 mis arall

2. Rhagolwg Tair Blynedd ar y Gyllideb.
   Cyflwynodd y Swyddog Cyllid rhagolwg tair blynedd o'r Gyllideb a phenderfynodd y Pwyllgor gadw at y rhagolygon fel ag a roddwyd. Cynhelir yr archwiliadau Chwarterol yn ystod cyfarfod mis Hydref.

3. Agorwyd y dogfennau tendr ar gyfer gosod y goleuadau Nadolig yn eu lle gan y Maer a'r Cyng Colin Jenkins
   1. Charles Sams Electrical £ 2,426.40 ac eithrio TAW
   2. Davies Electrical £ 1,650.00 ac eithrio TAW

   Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins y dylid rhoi'r cytundeb i Davies Electrical. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
4. Cyflwynwyd amcangyfrif gan D.Cledwyn Moses am waith cynnal a chadw i Neuadd y Sir i gyflenwi a gosod slabiau ar do'r blwch y mesurydd nwy, i osod rendr stwco ar y blaen a'r ochrau, tynnu'r wal blociau bychain oddi yno a gosod slab concrit drosto i gydweddu.
   Roedd pawb o blaid derbyn yr amcangyfrif.
5. Treialon Cŵn Defaid y Byd – Parêd a Derbyniad
   Cyflwynodd y Clerc fanylion o amcangyfrif o'r costau sydd ynghlwm.
   Derbyniodd y Cyngor bod y rhain o fewn y gyllideb a gytunwyd arno.
6. Adroddodd y Cyng Colin Jenkins ei fod wedi derbyn dyfynbris ar gyfer bathodynnau ag enwau arnynt i aelodau o'r Cyngor gan Relm Signs am £2 yr un. Roedd pawb yn gytûn y dylai'r Cyng Jenkins archebu 15 bathodyn.

Cof 132/ Medi/ 08 Gohebiaeth Parthed Cyllid

1. Mr Ken Day, Ymddiriedolaeth y Neuadd Ddinesig, cais am rodd ariannol o £250 i helpu i dalu am gostau gweinyddol y Daith Gerdded noddedig er budd Elusennau Clefyd y Siwgr.
   Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylid gofyn i Mr Day am fanylion neu ddadansoddiad o'r costau hyn. Eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 133/ Medi / 08 Doedd yna ddim rhagor o eitemau o fusnes

Daeth y cyfarfod i ben am 8.15 pm.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk